
# Y DU yn llunio cytundeb â'r UE




## Newid yn y model defnydd tir o dan sefyllfa "Cytundeb â'r UE"

*Byddai sefyllfa o sicrhau cytundeb â'r UE yn cynnal trefniadau masnach gyda 27 o wledydd yr UE yn nes at drefniadau busnes arferol. Bydd rhywfaint o gynnydd mewn costau masnachu (rhwystrau heblaw am dariffau) a fydai yn rhoi pwysau ar brisiau cig oen. Mae'r model yn rhagweld lleihad o 37,430 ha yn y tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer defaid o fewn yr Ardal dan Anfantais Fawr. Nid yw'r DU yn ddigon hunan-gynhaliol o ran cynnyrch llaeth ac mae'r defnydd o gynnyrch llaeth yn y DU yn parhau i dyfu, rhagwelir cynnydd o 15,675 ha yn y tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnyrch llaeth, ac mae'r tir hwn i ddod o dir isel/tir Ardal dan Anfanatis, sef ffermydd cig eidion a defaid ar hyn o bryd. Byddai'r tir mewn Ardal dan Anfantais yn cynnwys llai o ddefaid gyda chynnydd posibl yn yr ardaloedd o goetiroedd a choedwigoedd; mae'n bosibl hefyd y bydd cynnydd yn yr ardaloedd o goetiroedd a choedwigoedd; efallai y bydd lleihad hefyd yn nwysedd y stoc ar rai ffermydd tir uchel sy'n lleihau nifer y defaid i gadw diadell y gellir ei chynnal heb ddefnyddio bwydydd a gwrtaith.*

***Newid yn y model defnydd tir o dan sefyllfaoedd masnachu gwahanol wedi Brexit– pob map***

***Mae'r mapiau yn dangos allbynnau modelu ond nid ydynt yn cynrychioli polisïau Llywodraeth Cymru***


*Mae'r mapiau wedi defnyddio data defnydd tir gan Lywodraeth Cymru ac wedi eu rhannu yn ôl y "Rhestr wedi'i Chrynhoi o Fathau o Ffermydd" fel a ddiffinnir yn y rheolau Arolwg Busnesau Fferm. Mae newidiadau i RFT wedi'u penderfynu yn unol â rheolau modelu yn seiliedig ar newidiadau sy'n cael eu rhagdybio i brisiau yn y ffermydd o ganlyniad i naill ai gynnydd neu ostyngiad yn y sectorau llaeth, cig eidion a defaid erbyn 2025 wedi i 'r UE ymadael â'r UE. Mae'r model yn defnyddo'r lefelau cyfredol o gefnogaeth i ffermydd. Mae ffermydd sydd wedi newid RFT ac sy'n ddaearyddol agos wedi'u cyfuno mewn cylch sy'n gymesur â'u hardal ar y cyd, fel na ellir nodi ffermydd unigol. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfaoedd i'w gweld yma: https://llyw.cymru/gweithdai-cynllunio-senarios-ymadael-ar-ue-crynodeb*

- Modelu yn awgrymu bod y tir yn newid o Ardal dan Anfantais Fawr defaid arbenigol i eidion
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o Ardal dan Anfantais Fawr arbenigol i gynnyrch llaeth
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o borwyr cymysg i laeth
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o Ardal dan Anfantais defaid i ddefnydd tir arall
- Tir wedi'i gynnwys yn yr efelychiad o'r model

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Centre for Ecology & Hydrology
NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL

# Sefyllfa "Dim Cytundeb"




## Newid yn y model defnydd tir o dan sefyllfa "Dim Cytundeb"

*Pe byddai'r DU yn ymadael â'r DU heb gytundeb, byddai tarfu sylweddol i'r cadwyni cyflewni sefydledig gyda phrisiau is ar ffermydd, gan arwain at newid sylweddol yn y defnydd tir. Mae modelu yn rhagweld y byddai 79,547 ha o dir defaid o fewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr yn newid i eidion, yn bennaf o'r cynnydd mewn magu cig eidion o'r fuches odro. Byddai gwartheg godro yn cynyddu 86,786 ha, gan ddefnyddio'r tir o ffermydd eidion a defaid. Byddai lleihad pellach o 118,258 ha o dir Ardaloedd dan Anfantais Fawr ar gyfer defaid. Mae'n bosibl y bydd tir sy'n cael ei ryddhau yn yr Ardaloedd o dan Anfantais Fawr yn cael ei ddefnyddio i gynyddu ardal y coetiroedd a'r coedwigoedd. Mae'n bosibl hefyd y bydd gostyngiad yn y dwysedd stoc gyda ffermydd ond yn cadw nifer y da byw y gellir eu cynnal ar y tir gyda llai o ddefnydd o fwydydd a gwrtaith wedi'u prynu.*

***Newid yn y model defnydd tir o dan sefyllfaoedd masnachu gwahanol wedi Brexit– pob map***

***Mae'r mapiau yn dangos allbynnau modelu ond nid ydynt yn cynrychioli polisïau Llywodraeth Cymru***


*Mae'r mapiau wedi defnyddio data defnydd tir gan Lywodraeth Cymru ac wedi eu rhannu yn ôl y "Rhestr wedi'i Chrynhoi o Fathau o Ffermydd" fel a ddiffinnir yn y rheolau Arolwg Busnesau Fferm. Mae newidiadau i RFT wedi'u penderfynu yn unol â rheolau modelu yn seiliedig ar newidiadau sy'n cael eu rhagdybio i brisiau ar y ffermydd o ganlyniad i naill ai gynnydd neu ostyngiad yn y sectorau llaeth, cig eidion a defaid erbyn 2025 wedi i 'r UE ymadael â'r UE. Mae'r model yn defnyddo'r lefelau cyfredol o gefnogaeth i ffermydd. Mae ffermydd sydd wedi newid RFT ac sy'n ddaearyddol agos wedi'u cyfuno mewn cylch sy'n gymesur â'u hardal ar y cyd, fel na ellir nodi ffermydd unigol. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfaoedd i'w gweld yma: https://llyw.cymru/gweithdai-cynllunio-senarios-ymadael-ar-ue-crynodeb*

- Modelu yn awgrymu bod y tir yn newid o Ardal dan Anfantais Fawr defaid arbenigol i eidion
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o Ardal dan Anfantais Fawr arbenigol i gynnyrch llaeth
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o borwyr cymysg i laeth
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o Ardal dan Anfantais defaid i ddefnydd tir arall
- Tir wedi'i gynnwys yn yr efelychiad o'r model

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Centre for Ecology & Hydrology
NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL

# Cytundebau Masnach Rydd Amlochrog




## Newid yn y model defnydd tir mewn sefyllfa Cytundeb Masnach Rydd

*O fewn sefyllfa Cytundeb Masnach Rydd byddai lleihad yn y tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu llaeth, cig eidion a chig oen wrth i gynhyrchu cartref ddod o dan bwysau o brisiau is mewn marchnad nwyddau byd-eang. Mae modelu yn rhagweld y byddai 259,292 ha yn cael ei ryddhau o gynhyrchu amaethyddol wrth i brisiau ar y fferm ar gyfer llaeth a da byw ostwng. Mae'r tir sy'n cael ei ryddhau yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf, gyda llawer llai o newid ar dir mwy cynhyrchiol yn amaethyddol. Bydd y defnydd o'r tir yn y dyfodol ar gyfer yr ardal fawr sy'n cael ei rhyddhau yn ansicr. Bydd rhywfaint o'r tir yn cael ei ddefnyddio i gynyddu yr ardaloedd o goetiroedd a choedwigoedd. Efallai y bydd lleihau hefyd yn nwysedd y stoc gyda ffermydd ond yn cadw nifer y da byw y gellir eu cynnal ar yr ardal yna o dir.*

***Newid yn y model defnydd tir o dan sefyllfaoedd masnachu gwahanol wedi Brexit– pob map***

***Mae'r mapiau yn dangos allbynnau modelu ond nid ydynt yn cynrychioli polisïau Llywodraeth Cymru***

*Mae'r mapiau wedi defnyddio data defnydd tir gan Lywodraeth Cymru ac wedi eu rhannu yn ôl y "Rhestr wedi'i Chrynhoi o Fathau o Ffermydd" fel a ddiffinnir yn y rheolau Arolwg Busnesau Fferm. Mae newidiadau i RFT wedi'u penderfynu yn unol â rheolau modelu yn seiliedig ar newidiadau sy'n cael eu rhagdybio i brisiau ar y ffermydd o ganlyniad i naill ai gynnydd neu ostyngiad yn y sectorau llaeth, cig eidion a defaid erbyn 2025 wedi i 'r UE ymadael â'r UE. Mae'r model yn defnyddo'r lefelau cyfredol o gefnogaeth i ffermydd. Mae ffermydd sydd wedi newid RFT ac sy'n ddaearyddol agos wedi'u cyfuno mewn cylch sy'n gymesur â'u hardal ar y cyd, fel na ellir nodi ffermydd unigol. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfaoedd i'w gweld yma:* [https://llyw.cymru/gweithdai-cynllunio-senarios-ymadael-ar-ue-crynodeb](https://llyw.cymru/gweithdai-cynllunio-senarios-ymadael-ar-ue-crynodeb)

- Modelu yn awgrymu bod y tir yn newid o Ardal dan Anfantais Mawr i ddefnydd tir arall
- Modelu yn awgrymu bod tir yn newid o wartheg godro i ddefnydd tir arall
- Mae modelu yn awgrymu bod tir yn newid o borwyr cymysg i ddefnydd tir arall
- Tir wedi'i gynnwys yn yr efelychiad o'r model

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Centre for Ecology & Hydrology
NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL

ERAMMP